# Y Pwyllgor Addysg Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

## ELLS(2) 09-06(p9)

### Y PWYLLGOR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A CHEFN GWLAD
### BLAENRAGLEN WAITH 2006-07
### Y FLAENRAGLEN WAITH STRATEGOL

**Mai 2006 i Ebrill 2007**

Cyflwyniad

1. Un o saith pwyllgor pwnc y Cynulliad yw’r Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. O dan Reol Sefydlog 9.9, rhaid bod gan bwyllgorau pwnc raglen waith dreigl a fydd yn cwmpasu cyfnodau o 12 mis o leiaf. Mae'r Flaenraglen Waith Strategol yn pennu blaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer y 18 mis nesaf. Fe'i hategir gan raglenni manwl sy'n ymdrin â thymor ar y tro.

Cylch gwaith a chyfrifoldebau

2. Yn unol ag adran 57(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, mae cylch gwaith y Pwyllgor wedi’i seilio ar bortffolio’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, ac y mae’n cynnwys: yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy; cynllunio gwlad a thref; materion cefn gwlad a chadwraeth; amaethyddiaeth a datblygu gwledig, gan gynnwys coedwigaeth a chynhyrchu bwyd.

3. Nodir cyfrifoldebau’r pwyllgorau pwnc yn Rheolau Sefydlog 9.7 a 9.8, sef

9.7: Bydd pob Pwyllgor Pwnc yn:

(i) cyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Gweinidog perthnasol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt ac o fewn y meysydd y cafodd y Gweinidog gyfrifoldebau ychwanegol i ymdrin â nhw (ac eithrio rheoli busnes y Cynulliad a'i gyllid a materion o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Cyfle Cyfartal a Materion Ewropeaidd ac Allanol);

(ii) parhau i adolygu'r gwariant a'r gwaith gweinyddu sy'n gysylltiedig â'u gweithredu; a

(iii) pharhau i adolygu'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat yn cyflawni swyddogaethau cyhoeddus o fewn y meysydd a'r cyfrifoldebau hynny;

9.8 Bydd pob Pwyllgor Pwnc hefyd, o fewn y meysydd a'r cyfrifoldebau perthnasol yn:

(i) rhoi cyngor ar ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 24;

(ii) rhoi cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion yn ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 21;

(iii) cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 23 (cwynion);

(iv) cyflawni'r swyddogaethau a neilltuwyd iddo o dan y Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus a wneir o ran Reol Sefydlog 22;

(v) ystyried materion y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato sydd o fewn ei feysydd a'i gyfrifoldebau.

Nodau

4. Gan fod gan y Pwyllgor gylch gwaith mor eang, bydd yn datblygu dull strategol o weithio gyda'r nod o sicrhau cydbwysedd rhwng ystyried holl bynciau'r portffolio â'i holl gyfrifoldebau.

Blaenoriaethau

5. Dyma'r blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:

- Datblygu polisi (Rheol Sefydlog 9.7(i)) – bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y meysydd datblygu polisi y gall effeithio fwyaf arnynt. Yn ystod y cyfnod nesaf bydd y Pwyllgor yn:

    ymchwilio i'r posibilrwydd o dyfu biognydau a'r posibiliadau yng nghyswllt y diwydiant bio-más a biodanwydd yng Nghymru

  - ystyried agweddau cynlluniau ar offer cyfathrebu electronig

    - parhau i fonitro gwaith Llywodraeth y Cynulliad o ran rheoli twbercwlosis mewn gwartheg

- cynnal gwaith ar amgylchedd y môr

- ystyried dyfodol ymchwil amaeth-amgylcheddol yng Nghymru

  Craffu ar waith y Gweinidog (Rheol Sefydlog 9.7(i)) – bydd y Gweinidog yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor ym mhob yn ail cyfarfod ar ddatblygiadau cyfredol o fewn y portffolio. Ym mhob pwyllgor arall, bydd y Gweinidog, os yw'n briodol, yn rhoi gwybodaeth ar lafar ar faterion cyfredol neu faterion bryd o fewn ei bortffolio. Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor hefyd yn archwilio ambell destun mewn mwy o ddyfnder.

- Craffu ar gyrff perthnasol (Rheol Sefydlog 9.7 (iii)) – bydd y Pwyllgor yn craffu ar waith y cyrff perthnasol sy'n ymgymryd â gweithgareddau sy'n rhan o bortffolio'r Amgylchedd,

Cynllunio a Chefn Gwlad. Yn hytrach na chraffu ar berfformiad a'i fesur yn erbyn yr holl ystod o dargedau, bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar graffu ar agweddau penodol o waith y cyrff perthnasol, neu ar y ffordd y cyflwynir gwasanaethau ar y cyd. Bydd y Pwyllgor hefyd yn rhoi cyngor ar unrhyw adolygiadau pum mlynedd neu adolygiadau eraill y cyrff cyhoeddus.

Craffu ar ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru (Rheolau Sefydlog 9.8(i) a 22) – bydd y Gweinidog yn adrodd yn rheolaidd ar is-ddeddfwriaeth arfaethedig. Bydd y Pwyllgor yn cael gwybod am ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol a gynigir ac yn craffu ar unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol y bydd y Cyfarfod Llawn yn ei hanfon ato. Bydd y Pwyllgor yn dewis craffu ar eitemau o blith yr eitemau o ddeddfwriaeth lle mae cyfle i'r Pwyllgor ddylanwadu arnynt. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried is-ddeddfwriaeth ddrafft a gyfeiriwyd ato gan y Dirprwy Lywydd, fel bo'n briodol. O ran deddfwriaeth yr UE, mae'r pwyllgor, yn unol â'r dull o weithio a'r protocol y cytunwyd arnynt gan Banel y Cadeiryddion, wedi nodi ei flaenoriaethau sef, y Papur Gwyrdd ar addasu i'r newid yn yr hinsawdd, y Papur Gwyrdd ar Bolisi Morol yr UE yn y Dyfodol, a'r Adolygiad o'r rheolau iechyd yng nghyswllt sgil-gynhyrchion anifeiliaid. Hefyd, bydd y Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion a nodwyd yn Rhaglen 2005, yn ogystal â chydfodolaeth GMO, biodanwydd a chnydau ynni.

Eitemau eraill (Rheol Sefydlog 9.8) – bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried yr eitemau a ganlyn wrth iddynt godi:

- cynigion ar gyfer dyrannu cyllideb y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.8 (ii)) - bydd y Pwyllgor yn mynd ati yn ystod tymor yr haf i nodi ei flaenoriaethau o ran dyrannu'r gyllideb a bydd yn gwneud sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn ystod tymor yr hydref. Bydd yn monitro cynnydd Llywodraeth y Cynulliad yn y meysydd y bydd y Pwyllgor yn penderfynu rhoi blaenoriaeth iddynt yng nghyllideb 2005-06;
- cwynion (Rheolau Sefydlog 9.8(iii) ac 21) - bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw gwynion a gyfeiriwyd ato o dan Rheol Sefydlog 21;
- penodiadau cyhoeddus (Rheolau Sefydlog 9.8(iv) ac 20) – bydd y ddau a enwebwyd gan y Pwyllgor yn cymryd rhan yn y broses o benodi pobl i swyddi gyda chyrff cyhoeddus pan ddaw'r swyddi'n wag;
- unrhyw faterion eraill a gyfeiriwyd ato gan y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.8 (v)) – bydd y Pwyllgor yn ystyried materion eraill a gyfeiriwyd ato gan y Cynulliad Cenedlaethol, ond hoffai ofyn i'r Aelodau ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor cyn cyflwyno cynigion sy'n gwahodd y cyfarfod llawn i gyfeirio gwaith at y Pwyllgor

Dyletswyddau Statudol y Cynulliad

6. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn gosod rhai dyletswyddau ar y Cynulliad Cenedlaethol. Caiff gwaith y Pwyllgor ei arwain gan y canlynol:

- Cyfle Cyfartal (adran 48 ac adran 120) – cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor yn gyhoeddus ac o bryd i'w gilydd y tu allan i adeilad y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod ei fusnes o fewn cyrraedd pobl ledled Cymru. Dros yr ystod o faterion o fewn ei bortffolio, bydd y

Pwyllgor yn rhoi sylw i gyfle cyfartal;

- Datblygu Cynaliadwy (adran.121) – bydd y Pwyllgor yn craffu ar y rhannau perthnasol yn yr adroddiadau cynnydd blynyddol o ran cyflawni ymrwymiadau Cynllun Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad a Chynllun Gweithredu Llywodraeth y Cynulliad, ac o ran gweld i ba raddau y caiff datblygu cynaliadwy ei ymgorffori yng ngwaith CCNC. Fel rhan o gylch cynllunio'r gyllideb, bydd y Pwyllgor yn ystyried a yw penderfyniadau'n ymwneud â'r gyllideb yn hybu'r broses o lunio polisïau cynaliadwy. Bydd argymhellion adolygu polisi'r Pwyllgor ei hun yn cyd-fynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Gan fod cydgysylltu datblygu cynaliadwy'n rhan o gyfrifoldebau'r Gweinidog, bydd y Pwyllgor yn datblygu polisïau manwl ar gyfer y maes hwn ac yn craffu'n fanwl arno, megis craffu ar ddangosyddion datblygu cynaliadwy.

Y Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
Mai 2006